## ATODLEN 3

Rheoliad 4(4)

## RHAN 3 O DDATGANIAD CYLLIDEB

Rhaid i awdurdod nodi mewn perthynas â phob ysgol a gynhelir ganddo, yr holl ffactorau a ddangosir yn Rhan 2 o'r datganiad cyllideb, ynghyd ag unrhyw wybodaeth arall y cyfeirir ati yn y Rhan honno sy'n gymwys mewn perthynas â chymhwyso'r ffatorau hynny at ysgolion.

Rhaid darparu is-gyfansymiau ar gyfer pob ysgol yn dangos cydgyfanswm y symiau a ddyrennir i'r ysgol honno o dan bob un o'r categorïau canlynol:

### Ysgolion y brif ffrwd

**1.** Arian sydd wedi'i bwysoli yn ôl oedran

**2.** AAA i gynnwys

— disgyblion â datganiadau o anghenion addysgol arbennig

— disgyblion heb ddatganiadau

— arian a seilir ar niferoedd lleoedd a drinnir fel arian a seilir ar niferoedd disgyblion

**3.** Arian arall a seilir ar niferoedd disgyblion

**4.** Anghenion addysgol ychwanegol

**5.** Ffactorau penodol i safle

**6.** Ffactorau penodol i ysgol

**7.** Addasiadau cyllideb

**8.** Cyfanswm y gyfran o'r ISB (prif ffrwd)

### Ysgolion Arbennig

**9.** Arian a seilir ar niferoedd lleoedd

**10.** Arian a seilir ar niferoedd disgyblion

**11.** Anghenion addysgol ychwanegol

**12.** Ffactorau penodol i safle

**13.** Ffactorau penodol i ysgol

**14.** Addasiadau cyllideb

**15.** Cyfanswm y gyfran o'r ISB (Arbennig)

**Os nad oes ffactor yn gymwys i ysgol benodol rhaid rhoi sero gyferbyn â'r ffactor hwnnw.**